# COD YMDDYGIAD AELODAU

Mae'r Cyngor Cymuned wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau, sydd wedi ei selio ar gòd model Llywodraeth Cymru, ac yn cynnwys y deg egwyddor ganlynol:

1. ANHUNANOLDEB
2. GONESTRWYDD
3. HYGREDEDD A GWEDDUSTER
4. DYLETSWYDD I GYNNAL Y GYFRAITH
5. STIWARDIAETH
6. GWRTHRYCHEDD WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU
7. CYDRADDOLDEB A PHARCH
8. BOD YN AGORED
9. ATEBOLRWYDD
10. ARWEINYDDIAETH

**1. Anhunanoldeb**

Rhaid i aelodau weithredu er lles y cyhoedd yn unig. Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio'u safle fel aelodau er mantais amhriodol iddynt eu hunain neu er mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

**2. Gonestrwydd**

Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn dull sy'n diogelu lles y cyhoedd.

**3. Hygrededd a gwedduster**

Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall tuag at unigolion neu gyrff a allai geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau, yn bwrw amheuaeth ar eu huniondeb. Rhaid i aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly bob adeg.

**4. Dyletswydd i gynnal y gyfraith**

Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi ei rhoi iddynt.

5. **Stiwardiaeth**

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau'r awdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn bwyllog.

6. **Gwrthrychedd wrth wneud penderfyniadau**

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a buddiannau, rhaid i aelodau wneud penderfyniadau ar sail haeddiant. Er bod rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol swyddogion a gall fod yn briodol iddynt roi sylw i farn eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb hwy yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

7. **Cydraddoldeb a pharch**

Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gyda sylw dyladwy i'r angen am hybu cyfle cyfartal i bawb, heb ystyried eu rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu gogwydd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd, gan ddangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

8. **Bod yn agored**

Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl am eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

9. **Atebolrwydd**

Mae'r aelodau yn atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y modd maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelodau. Rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw archwiliadau sy'n briodol ar gyfer eu cyfrifoldebau.

10. **Arweinyddiaeth**

Rhaid i aelodau hybu a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy roi arweiniad ac esiampl fel y byddant yn hybu hyder cyhoeddus yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu bod swyddogion statudol a gweithwyr cyflogedig eraill yr awdurdod yn union a diduedd.

Dyddiad adolygu a mabwysiadu: 30 Medi 2024